

# AU Ymlaen yn gweithio gyda Chymru 2020-21

AU Ymlaen
Advance HE

## Gweithio gyda Chymru

Yng Nghymru, mae AU Ymlaen yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, CCAUC (HEFCW), Prifysgolion Cymru, y naw Prifysgol a'r Colegau AB hynny sy'n cynnig darpariaeth AU. Mae gan AU Ymlaen Bennaeth Aelodaeth yng Nghymru, yn cael cymorth gan Uwch Ymgynghorydd Addysgu a Dysgu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac Aelodau Cyswllt sy'n gweithio yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig gydag arbenigedd mewn arweinyddiaeth, llywodraethu, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, addysgu a dysgu, ynghyd â dealltwriaeth dda o gyd-destun Cymru yn y disgyblaethau hyn.

Mae ein hymgysylltiad ffurfiol â sector AU Cymru trwy grŵp rhanddeiliaid AU Ymlaen, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gyda chynrychiolaeth o'r sector a chyrff sector.  Mae'r Pennaeth Aelodaeth hefyd yn ymgysylltu â'r sector yn fwy eang trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau, a threfnu grwpiau rhwydwaith AU Ymlaen Cymru:

+ Grŵp Sefydliadol Cymru (WIG) AU Ymlaen (Grŵp Dysgu ac Addysgu Sefydliadol, Cymru)
+ Grŵp Cyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant AU Ymlaen Cymru
+ Datblygu Trefniadaethol a Datblygu Staff (OSD) Cymru (datblygu trefniadaethol a datblygu staff).

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau eraill trwy wahoddiad e.e. Adnoddau Dysgu Prifysgolion Cymru; Clercod ac Ysgrifenyddion Cymru; cyfarfodydd ar y cyd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Chlercod ac Ysgrifenyddion Cymru; Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Dirprwy Gangellorion; grŵp Dirprwy Gangellorion Ymchwil; Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, Colegau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Gweithio gyda'r Gymraeg

Mae AU Ymlaen yn ymrwymedig i ddarparu ymateb cyfrannol at yr angen am adnoddau yn y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod adnoddau allweddol ar gael yn ddwyieithog. Bydd **ein tudalen we ddwyieithog** yn darparu gwybodaeth ar lansio ceisiadau ar gyfer Cymrodoriaethau yn Gymraeg yn 2020-21 a byddwn yn croesawu ceisiadau i'r gwobrau addysgu yn ddwyieithog.

# Aelodaeth AU Ymlaen yng Nghymru

Yn 2019-20, rydym yn falch bod pob un o naw Prifysgol Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r saith Coleg Addysg Bellach yn parhau i fod yn aelodau o AU Ymlaen.

## Buddion Aelodau AU Ymlaen Cymru 2020-21

AdvanceHE MEMBER BENEFIT

Mae gan aelod-sefydliadau Cymru fynediad i'r ystod eang o fuddion aelod y DU AU Ymlaen a fanylir yn ein llyfryn Aelodaeth 2020-21. Mae'r rhain yn cynnwys **adnoddau ar thema COVID-19** (gweminarau, blogiau ac adroddiadau) a phrosiectau budd aelodau megis **Creu Campysau Cadw Pellter Cymdeithasol ac Addysg.**

**Yn ogystal, mae gan aelod-sefydliadau Cymru fynediad i gyfres o fuddion aelodau penodol i Gymru, sy'n cynnwys:**

**+** Menter Ymateb Sefydliadol Strategol y Cenhedloedd (aelodau llawn). Nod y fenter ar y cyd hon rhwng Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yw helpu uwch arweinwyr i barhau i ddatblygu eu hymateb strategol sefydliadol trwy archwilio ac adolygu strategaethau sefydliadol cyfredol a newydd, yn wyneb yr heriau amgylcheddol mawr a wynebwn fel sector.

- Bydd y sesiynau â ffocws ar-lein hyn sydd i'w cynnal bob pythefnos am ddwy awr ystod amser cinio yn rhedeg o Fehefin i Dachwedd 2020.
- Bydd pob sesiwn yn annibynnol ac yn archwilio themâu trawsbynciol, er enghraifft:
  - Arweinyddiaeth newid addysgegol cyflym, llywio cyfeiriad strategol, cynaliadwyedd sefydliadol, newid strwythurol arweinyddiaeth a sefydliadol, partneriaeth myfyrwyr sy'n datblygu, yr effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Bydd agweddau craidd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar adeiladu rhwydwaith o fewn ac ar draws cenhedloedd, a rhannu a myfyrio ar brofiadau a mentrau
- Bydd yr elfennau cyflenwi yn cael eu cofnodi i'w gwylio yn ddiweddarach ond bydd trafodaethau yn dilyn Rheol Tŷ Chatham arferol AU Ymlaen.

**+ Menter Llesiant Addysg Uwch Cymru (WHEWI)** – byddwn yn parhau â chasgliad y fenter hon oedd yn archwilio iechyd meddwl a llesiant yn y cwricwlwm. Cafodd ei ohirio yn dilyn cais gan y sector.

**+ Archwilio'r Bwlch Cyrhaeddiad a Chadw ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.** Bydd y gyfres o ddau weminar oedd yn canolbwyntio ar aelodau Grŵp Sefydliadol Cymru a Grŵp Cyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru yn archwilio'r pwnc gan gynnwys ystyried tlodi digidol mewn cyfnod o ymgysylltu ar-lein a dysgu cyfunol posibl yn y dyfodol.

## Cysylltu

**Gary Reed, Pennaeth Aelodaeth (Cymru) / Head of Membership (Wales)**

**E gary.reed@advance-he.ac.uk M +44 (0)7701 369155**